

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 618 (Cy. 140)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Paratoadau Cig  
(Cymru) (Diwygio) 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) er mwyn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratoadau cig fod wedi eu rhewi'n ddwfn pan fônt yn cael eu mewnforio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir, gan gysoni â'r dyddiad a benodwyd fel dyddiad dod i ben estynedig y "cyfnod graddoli trosiannol", a ddiffinnir yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 (EUR 2017/625). Mae'r estyniad hwn hyd 31 Rhagfyr 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 618 (Cy. 140)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Paratodau Cig  
(Cymru) (Diwygio) 2022**

<i>Gwnaed</i>		<i>7 Mehefin 2022</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 8 Mehefin 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>29 Mehefin 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(1).

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratodau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Mehefin 2022.

**Diwygio Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

2. Yn rheoliad 3(1) (addasiadau darfodol i Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC) o Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(2), yn lle "30 Mehefin" rhodder "31 Rhagfyr".

- 
- (1) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodir paragraff 11A yn Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639) (Cy. 344).
- (2) O.S. 2021/1 (Cy. 1), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/376 (Cy. 117), O.S. 2021/977 (Cy. 231) ac O.S. 2021/1480 (Cy. 382).

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r  
Trefnydd, un o Weinidogion Cymru  
7 Mehefin 2022